# CAN O GLOD

I'R

# BONEDDWR JOHN INGLIS JONES, YSWAIN,

## O'R DDERI ORMOND, CEREDIGION,

AR EI DDYFODIAD I'W OED, GORPHENAF 15FED, 1850.

415

CYDNESEWCH chwi Foneddigion,
Mewn da fwriad, a Gwyr mawrion,
Ffermwyr, Crefftwyr, Labrwyr hefyd,
Rho'wn glod i 'Sgwier Jones yn unfryd.

Dyma'r doeth Esgwier da,
Dyma'r doeth Esgwier da;
Blodeuyn llawen Un-ar-hugain,
Pwy na seiniau dair Hwsa.

Rho'f finau, heb gellwair, gân, os gallaf,
Ar y pymthegfed o Orphenaf,
Un fil wyth cant a deg-a-deugain,
Mae'r 'Sgwier Jones yn Un-ar-hugain.

Dyma'r doeth Esgwier da, &c.

Dyma un a wna ddaioni,
Sef y 'Sgwier Jones o'r Dderi;
Dyma feistr da i'r d'ladon;
Hwn yw blodau Ceredigion.

Dyma'r doeth Esgwier da, &c.

Mae pawb yn effro trwy'r holl ddyffryn,
'Nawr ar foreu dydd Sant Swithin;
Dyma'r dydd i'r 'Sgwier mwynlan,
Lawn feddiannu State ei hunan.

Dyma'r doeth Esgwier da, &c.

Cydymdyrwch yma'n dirion,
Chwi gewch weled rhostio'r Eidion;
Cewch beth i'w fwyta 'nol ei dori,
A'ch gwala o degwch,—gwiliwch dagu.

Dyma'r doeth Esgwier da, &c.

Dewch yn ddiau at y ddiod,
Cofiwch, peidiwch yfed gormod;
Mewn da foddion gwiliwch feddwi,
Rhag îs wybren ffaelu sobri.

Dyma'r doeth Esgwier da, &c.

Wele 'nawr yr holl ddeiladon,
Yn ddigelu, fel un galon,
Wedi cwrddyd mewn llawenydd,
I gyd-wledda gyda'u gilydd.

Dyma'r doeth Esgwier da, &c.

Bu rhyw alar oer a hiraeth,
'Rol ei dad trwy'r holl gym'dogaeth;
Pwy a wyr na wna'r Etifedd,
Yn ddiarswyd lenwi'i orsedd.

Dyma'r doeth Esgwier da, &c.

Mae dysgwyliad mawr eleni,
Am gael gwaith ar State y Dderi;
Cewch waith ac arian 'mhen ychydig,
Eithaf dyn yw'r Gwr Boneddig.

Dyma'r doeth Esgwier da, &c.

Gobeithio gwna'r Esgwier gwiwlon,
Gyfranu'n hael i'r rhai tylodion,
A phara i rodio mewn anrhydedd,
Nes cyrhaedd coron o drugaredd.

Dyma'r doeth Esgwier da, &c.

Boed hir-oes iddo ef ac iechyd,
Ac wrth fodd gymhares bywyd,
A llawer iawn o blant serchoglan,
I'w gynnorthwyo i wario'r arian.

Dyma'r doeth Esgwier da, &c.

Rwy'n cofio Morgans wrth derfynu,
Sef Goruchwyliwr State y Dderi,
'Rhwn wna rhwng dyn a dyn gyfiawnder,
Gydwaeddwn 'Sgwier Jones *for ever*.

Dyma'r doeth Esgwier da,
Dyma'r doeth Esgwier da,
Blodeuyn llawen un-ar-hugain,
Pwy na seiniau dair Hwsa.